**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CRAFFU - GWASANAETHAU CYMUNED**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned a gynhaliwyd Dydd Llun, 10 Gorffennaf 2023 am 5.00 pm ym Rhithwir.

Cafodd y cyfarfod yma ei recordio, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Davis | Y Cynghorydd D Evans |
| Y Cynghorydd A Fox | Y Cynghorydd H Gronow |
| Y Cynghorydd N H Morgan | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd Owen-Jones | Y Cynghorydd D Parkin |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd G Stacey |
| Y Cynghorydd T Williams | |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Ms C O'Neill, Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant
Dennis, Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu'r Gymuned
Mrs E Wilkins, Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd J Edwards

**1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Bonetto, S Bradwick ac A Ellis.

**2 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**3 COFNODION 24.04.23**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023 yn rhai cywir.

**4 DOLENNI YMGYNGHORI**

Aeth yr Aelodau ati i gydnabod yr wybodaeth oedd wedi'i darparu trwy'r dolenni

ymgynghori mewn perthynas ag ymgynghoriadau agored, ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r materion hynny y mae'r awdurdod lleol yn cynnal ymgynghoriadau ynglŷn â nhw.

## 5 RHAGLEN WAITH DDRAFFT 2023-24

Cyflwynodd Rheolwr Busnes y Cyngor yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth Aelodau o ran Rhaglen Waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer Blwyddyn 2023/24 y Cyngor. Nodwyd nifer o eitemau cychwynnol o ganlyniad i drafod gyda'r Cadeirydd/Is-gadeirydd a Swyddogion.

Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod y rhaglen waith ddrafft yn ddogfen hyblyg er mwyn ychwanegu unrhyw flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ati yn ystod blwyddyn y Cyngor. Hefyd, pe byddai angen, byddai modd trefnu cyfarfodydd ychwanegol o'r pwyllgor yma, a hynny gyda chaniatâd y Cadeirydd, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw eitemau brys ac allweddol o ran amser.

Rhoddodd Rheolwr Busnes y Cyngor wybod i Aelodau y byddai eitemau ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y rhaglen waith, a hynny fel arfer da i wahodd Aelodau perthnasol y Cabinet ar gyfer y Pwyllgor yma i gyfarfodydd mis Ionawr a mis Mawrth. Bydd modd i Aelodau'r Pwyllgor gael gwybod y diweddaraf am bortffolio'r Aelodau o'r Cabinet a chael cyfle i weithredu'n ffrind beirniadol er mwyn sicrhau proses gwneud penderfyniadau gadarn yn y dyfodol.

Cafodd Aelodau wybod y bydd y rhaglen waith yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a hynny yn rhinwedd ei rôl drosfwaol a chydlynol i sicrhau nad oes dyblygu o ran rhaglenni gwaith pob un o'r pwyllgorau craffu thematig.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Cytuno ar faterion i'w cynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu – Gwasanaethau Cymuned ar gyfer Blwyddyn 2023/24 y Cyngor (fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1) gyda diwygiadau addas yn ôl yr angen; a

2. Gofyn bod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn rhoi gwybod i'r Aelod perthnasol o'r Cabinet a'r Swyddog perthnasol am y materion sydd wedi'u nodi'n faterion a fydd yn destun gwaith rhag-graffu cyn i'r Cabinet eu trafod.

## 6 Strategaeth Toiledau Cyhoeddus

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned Bennaeth y Celfyddydau, Llyfrgelloedd a Diwylliant, a roddodd wybod i'r Aelodau mai bwriad yr adroddiad yw rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor Craffu – Gwasanaethau Cymuned am yr adolygiad o Strategaeth Toiledau Lleol Cyngor Rhondda Cynon Taf rhwng 2019-2023 a 2023-2028. Hefyd, caiff Aelodau gyfle i graffu ar y strategaeth a chyflwyno unrhyw sylwadau neu argymhellion mewn perthynas â'r cynigion yma.

Amlinellodd Pennaeth y Celfyddydau, Llyfrgelloedd a Diwylliant y cefndir, gan

nodi cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol a manylion y strategaeth gychwynnol a gafodd ei chyhoeddi yn 2019. Cafodd Aelodau eu hatgoffa o nod y strategaeth, sef adolygu ansawdd a nifer y toiledau lleol ledled y fwrdeistref sirol. Ar ben hynny, mae'n bwriadu darparu neu hwyluso toiledau glân, diogel, hygyrch a chynaliadwy ar gyfer trigolion ac ymwelwyr mewn lleoliadau lle mae'r angen am gyfleusterau o'r fath wedi'i nodi.

Cafodd Aelodau wybod am y cynnydd hyd yn hyn a rhoddwyd manylion am ddau amcan sydd wedi'u datblygu gyda chamau gweithredu ategol.

Gofynnodd Aelod a fyddai modd i drigolion ddefnyddio ap i ddod o hyd i'r toiledau cyhoeddus agosaf, gan nodi bod hyn yn broblem i drigolion sy'n teithio ledled y fwrdeistref ac sy ddim yn gwybod lleoliad y toiledau agosaf. Aeth Pennaeth y Celfyddydau, Llyfrgelloedd a Diwylliant ati i gydnabod y bydd mapio darpariaeth toiledau ledled y Fwrdeistref Sirol yn allweddol o ran diweddaru'r wybodaeth a sicrhau ei bod ar gael ar wefan y Cyngor. Cafodd Aelodau wybod y bydd arwyddion toiledau cyhoeddus yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a chanllawiau cenedlaethol er mwyn sicrhau bod toiledau hygyrch i'w gweld ledled y fwrdeistref. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu'r Gymuned yr wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y broses fapio, gan nodi bod gwaith yn mynd rhagddo gyda Swyddogion adran Eiddo'r Cyngor, gan gynnwys manylion Mannau Newid i Oedolion a thoiledau hygyrch. Cafodd Aelodau wybod mai'r uchelgais hirdymor yw cynnwys yr wybodaeth mewn ap. Serch hynny, yn y tymor byr, bydd yr wybodaeth yn cael ei rhoi ar wefan y Cyngor.

Gofynnodd Aelod am fanylion yn yr adroddiad mewn perthynas â'r cyfleusterau sydd ar gael mewn busnesau preifat ledled y fwrdeistref. Hefyd gofynnodd pa gymhellion fyddai ar gael i'r busnesau yma am adael i'r cyhoedd ddefnyddio eu cyfleusterau, gan nodi y bydd hyn yn rhwystr mawr os nad oes unrhyw gymhellion ar gael. Rhoddodd Pennaeth y Celfyddydau, Llyfrgelloedd a Diwylliant wybod i Aelodau y gofynnwyd i fusnesau preifat ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio eu cyfleusterau, a hynny yn rhan o'r strategaeth gychwynnol, ond roedd y sector preifat yn anfodlon. Nododd y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu'r Gymuned y bydd y sgwrs yma'n cael ei chynnal eto a thrafododd y Grantiau Cymunedol sydd ar gael i sefydliadau nad ydyn nhw'n gwneud elw.

Nododd Aelod y posibilrwydd o siarad ag adran Canol Trefi y Cyngor am ffyrdd o annog busnesau i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio eu cyfleusterau fel ffordd o sicrhau bod Canol Trefi yn fannau croesawgar sy'n annog trigolion i ymweld â nhw. Nododd ei bod yn bwysig bod cyfleusterau ar gael i helpu canol trefi i ffynnu. Cadarnhaodd Pennaeth y Celfyddydau, Llyfrgelloedd a Diwylliant y byddan nhw'n cynnwys y garfan Canol Trefi yn y drafodaeth am ymgysylltu â busnesau preifat.

Tynnodd Aelod arall sylw at fanylion yn yr adroddiad o ran darpariaeth toiledau gyda'r nos a gofynnodd a oes cynlluniau i ddarparu'r cyfleusterau yma yng nghanol trefi. Cadarnhaodd Pennaeth y Celfyddydau, Llyfrgelloedd a Diwylliant y byddai darpariaeth ac oriau agor toiledau cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn rhan o'r drafodaeth gyda'r garfan Canol Trefi.

Gofynnodd yr Aelodau am ddiogelwch a gwaith monitro'r toiledau cyhoeddus er mwyn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan dynnu sylw at y problemau sydd wedi dod i'r amlwg ledled y Fwrdeistref Sirol hyd yn hyn. Cadarnhaodd Pennaeth y Celfyddydau, Llyfrgelloedd a Diwylliant y bydd y pryderon yma'n cael eu hystyried a'u trafod gyda'r adrannau perthnasol wrth siarad am ddarpariaeth

gyda'r nos. Pwysleisiodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned bwysigrwydd rhoi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn sicrhau bod modd gweld unrhyw batrymau a deall y problemau'n well.

Gofynnodd Aelod am yr adnoddau sydd ar gael ac a ydyn nhw'n ddigonol i ddiwallu'r angen ledled y Fwrdeistref Sirol. Rhoddodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned wybod i Aelodau am yr ymgynghoriad blaenorol a gafodd ei gynnal gydag ystod eang o grwpiau cymunedol er mwyn deall yr angen a'r anawsterau o ran diwallu anghenion grwpiau penodol. Tynnwyd sylw at yr amcanion mewn perthynas â mannau newid a thoiledau hygyrch. Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod y Cyngor wedi cynnal a chadw'r rhan fwyaf o doiledau cyhoeddus, a hynny wrth i awdurdodau cyfagos eraill benderfynu cau nifer o gyfleusterau. Nododd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned mai'r bwriad yw gweithio i sicrhau bod pobl yn effro i leoliadau toiledau cyhoeddus a'u horiau agor ledled y fwrdeistref, wrth weithio gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill i nodi unrhyw ffyrdd o wella hyn.

Gofynnodd Aelod arall a oedd yr effeithiau ar gostau i'r Cyngor o adrannau eraill, megis cynnydd yng ngwaith glanhau amgylcheddol, wedi cael eu hystyried, a hynny mewn perthynas â chyfleusterau sydd wedi cau neu sydd ag oriau agor cyfyngedig. Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu'r Gymuned sut mae Swyddogion yn gweithio gydag adran Eiddo'r Cyngor a Materion Cynnal a Chadw sy'n cadarnhau ein bod ni wedi cyrraedd ein capasiti ariannol o ran gallu i lanhau a'r amserlen gwaith cynnal a chadw. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu'r Gymuned nad oes cynlluniau yn y strategaeth i agor cyfleusterau newydd, oni bai bod modd sicrhau grantiau allanol i dalu am gyfleusterau o'r fath mewn lleoliadau yn y gymuned.

Nododd Aelod y sefyllfa ddelfrydol o ddarparu cyfleusterau ychwanegol ac ehangu'r oriau agor ond tynnodd sylw at anawsterau gwneud hynny o ystyried y pwysau cyllidebol. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned gytundeb y Cyngor i gynnal a chadw toiledau cyhoeddus yn ôl y lefel bresennol ond aeth ati i gydnabod y penderfyniadau ariannol anodd y mae angen eu hystyried. Pwysleisiodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned fod y strategaeth yn nodi'r hyn y credir y dylai'r polisi ymwneud ag ef o ran darpariaeth a darpariaeth hygyrch, a hynny wrth fod yn gymesur o fewn cyfyngiadau.

Yn dilyn trafodaeth fanwl am yr wybodaeth sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, roedd Aelodau o blaid gwella'r ddarpariaeth ond hynny heb effaith ariannol ychwanegol ar y Cyngor. Trafododd Aelodau bwysigrwydd ystyried opsiynau ariannu allanol a chynnwys y cyfle i weithio gyda sefydliadau'r sector preifat er mwyn darparu cyfleusterau ychwanegol.

Yn dilyn trafodaeth hir gan y Pwyllgor, **PENDERFYNWYD** cydnabod yr wybodaeth sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad a rhannu'r sylwadau gyda'r Cabinet.

## 7 ADOLYGIAD Y CADEIRYDD A DOD Â'R CYFARFOD I BEN

Rhoddodd yr Is-gadeirydd a oedd yn cadeirio ddiolch i Aelodau a Swyddogion am gyfrannu at y cyfarfod. Aeth yr Is-gadeirydd ati i gydnabod cymhlethdod y pwnc a gafodd ei drafod yn ystod y cyfarfod ond rhoddodd ddiolch i Aelodau am ymgysylltu, trafod a gofyn cwestiynau manwl.

## 8 MATERION BRYS

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.55 pm**

**Cadeirydd.**